

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **3ydd o Fedi** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan am **7yh**.

1.	Presennol:	John Till (Cadeirydd), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Enid Egginton (Garndolbenmaen) Megan Lloyd Williams (Golan), Richard Williams (Prenteg) Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)
2.	Ymddiheuriadau:	Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Cyngorydd June Jones (Cyngor Gwynedd)
3.	Ddim yn bresennol:	John Jones (Garndolbenmaen), Iddon Edwards (Penmorfa)
4.	Datgan Buddiant:	Richard Parry – Eitem 13
5.	Cywirdeb y cyn-gofnodion :	RW yn cynnig ac HP yn eilio.
6.	Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:	Cyfrif cadw HTB: Trosglwyddwyd £20,000 i'r cyfrif cadw. Mynwentydd a'r cae chwarae: Cynhaliwyd archwiliad ym Mynwent Bethel. Mae angen archwilio Mynwent Penmorfa a'r cae chwarae. Llwybr rhif 1: Mae'r gwaith torri wedi'i gwblhau. Llwybr Bro Pedr Fardd i'r hen dai ffatri: Adroddodd EE fod y llwybr wedi'i dorri'n fuan ar ôl y cyfarfod diwethaf. Nid yw'n hysbys pwy gyflawnodd y gwaith, ond mynegwyd diolch amdano. Nid oes gwybodaeth o hyd ynghylch perchnogaeth y tir na phwy sy'n gyfrifol amdano. Gardd gymunedol Garndolbenmaen: Mae ADRA wedi clirio'r darn o dir ac wedi cadarnhau nad oedd clymog Japan yno. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â'r preswlydd i ddiolch am dynnu sylw at y mater. Gwahoddiad i'r Heddlu i drafod Pont Wern: Derbyniwyd ymateb i'r gwahoddiad yn nodi mai cyfrifoldeb y Cyngor, fel yr awdurdod sy'n gyfrifol am y ffyrdd, yw dod o hyd i ateb i'r broblem ac nad oes yna unrhyw gamau rhagweithiol i'r Heddlu. Arwyddion chevron Pont y Traeth: Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd, yn cadarnhau bod yr arwyddion chevron wedi'u harchebu. Bydd yr Adran yn cysylltu â Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru i gydlynu'r gwaith a sicrhau'r caniatâd angenrheidiol, fel y gellir ei gyflawni cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
7.	Mynwentydd:	Cwblhawyd archwiliad o Fynwent Bethel. Adroddwyd bod y fynwent mewn cyflwr rhagorol, a chytunwyd y dylid canmol y contractwr am safon uchel y gwaith.

		Cadarnhawyd bod y mynwentydd eraill hefyd yn daclus, a bod gwaith yr holl gontractwyr yn ganmoladwy. Gofynnwyd i'r Clerc gadarnhau a oes angen toriad pellach ym Mynwent Eglwys Llanfihangel-y-pennant, Cwm Pennant, ac i sicrhau bod y ddau lwybr sy'n arwain at y fynwent yn cael eu torri. Adroddwyd bod carreg goffa John Ystumllyn wedi'i symud oddi ar y bedd ym Mynwent Ynyscynhaearn. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau i ganfod pam y digwyddodd hyn ac a fyddai modd ail-osod y garreg ar y bedd.
8.	Llwybrau Cyhoeddus:	Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cwyn am ordyfiant ar y llwybrau o Lôn Las i Garreg Lwyd ac o Garreg Lwyd i Angorfa. Cadarnhaodd ei bod wedi cysylltu â'r contractwr, a bod y ddau lwybr bellach wedi'u torri. Yn dilyn sgwrs â Dewi Wyn Owen o Gyngor Gwynedd, adroddodd SCH fod oedi wedi bod yn y rhaglen torri rhai o'r llwybrau oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y contractwr a'r Cyngor.
9.	Adroddiad Pentrefi:	Pentrefelin: Adroddwyd bod angen torri coeden sycamorwydden a thua pedwar glasbren ger y fynedfa i stad Bryn Tyddyn. Clerc i adrodd am rain i Gyngor Gwynedd. Adroddwyd nad oes cyswllt pellach wedi'i dderbyn gan Dewi Cullen o YGC i ymgymryd â gwaith rheoli rhediad dŵr. Clerc i gysylltu hefo Dewi i ofyn am ddiweddariad. Garndolbenmaen: Cynhaliwyd gŵyl a chystadleuaeth cneifio gyflym lwyddiannus dros yr haf. Adroddwyd hefyd fod y paratodau ar gyfer y sioe flodau, a gynhelir y penwythnos hwn, yn mynd rhagddynt yn brysur. Adroddodd SCH ei fod wedi rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd am blanhigyn clymog Japan ger y bin baw cŵn heibio Caer Ffynnon. Prenteg: Mynegwyd pryder ynghylch grŵp o geir a welwyd yn teithio ar gyflymder ar hyd ffordd yr ardal dros yr haf. Adroddwyd bod platiau cofrestru rhai o'r cerbydau wedi'u tynnu neu eu cuddio er mwyn atal y cerbydau rhag cael eu hadnabod ac osgoi camau gorfodi. Adroddwyd nad yw llinellau gwyn ac yr arwyddion 'araf' wedi cael eu peintio ar y ffordd ar ôl y gwaith ail-wynebu cyn yr haf. Soniwyd bod gordyfiant yn gorchuddio'r arwydd Canolfan Prenteg. Adroddwyd bod yna lawer o gingroen o gwmpas ac nad yw'r cyngor wedi bod o amgylch yn eu casglu. Clerc i adrodd am y materion yma i Gyngor Gwynedd. Bryncir: Mynegwyd siom hefo ymateb Llywodraeth Cymru i oryrru drwy'r pentref.

		Gofynnwyd a oedd diweddariad pellach parthed y safle bws. Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw ddiweddariad ac y bydd yn mynd ar ôl y mater yma. Golan: Mynegwyd siom ynghylch ymateb Dŵr Cymru. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r sefydliad eto er mwyn trefnu cyfarfod ar y safle. Gofynnwyd i SCH am ddiweddariad ar gyflwr ffordd Cwmystradllyn yn dilyn y gwres eithriadol dros yr haf. Cadarnhaodd nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach gan Gyngor Gwynedd, a gofynnwyd iddo fynd ar drywydd y mater. Mynegwyd pryder ynghylch cerbydau'n parcio ar Bont Llan yng Nghwm Pennant, gan rwystro mynediad i gerbydau mawr a lorïau sy'n danfon i ffermydd y cwm. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i holi a fyddai modd gosod arwyddion 'Dim Parcio' yn y lleoliad. Adroddwyd bod ymylon y ffyrdd a'r mannau pasio yng Nghwm Pennant wedi gordyfu a bod angen eu torri. Soniwyd hefyd bod yna goed/glasbren yn tyfu o amgylch Pont Llan a bod pryder ynghylch yr effaith all hyn gael ar strwythur y bont yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd ynghylch y mater. Mynegwyd pryder ynghylch pobl yn gwersylla'n anghyfreithlon ger Clenennau. Gofynnwyd i SCH gysylltu â'r Aelod Seneddol lleol. Cynigiwyd hyn gan MLW, eiliwyd gan RW, a chytunodd pawb. Adroddwyd bod casgliad ailgylchu diweddar wedi gadael cryn lanast yng Nghwm Ystradllyn. Penmorfa: Adroddodd SCH bod difrod wedi'i wneud i wal 6 eiddo yn ddiweddar ar ôl i lori geisio mynd ar hyd yr hen lôn. Swyddog Traffig Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r achos.
10.	Bwlch y Moch	Adroddwyd pryder bod cerbydau yn parcio ar y ffordd ym Mwlch y Moch. Gofynnwyd i'r cler gysylltu hefo Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol.
11.	Diffibrilwyr Cymuned Dolbenmaen	Angen gwell dealltwriaeth am bwy sydd yn gyfrifol am y diffibrilwyr o fewn cymuned Dolbenmaen. Clerc i ganfod pwy sydd yn gyfrifol am bob un ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
12.	Lon Tabor / Pont Rheilffordd Pentrefelin	Adroddwyd bod yna ddigwyddiadau pellach wedi bod dros yr haf ble mae lorïau wedi mynd yn sownd ac wedi gorfod bacio yn ôl yr holl ffordd o'r bont rheilffordd i Lôn Tabor. Soniwyd hefyd bod achos arall o ble mae bws wedi ceisio mynd lawr Lôn Tabor o gyfeiriad Glan Byl. Mae arwyddion yn bodoli ond nid ydynt yn ddigonol, yn y lleoliadau cywir ac yn ddigon clir. Clerc i gysylltu unwaith yn rhagor gyda Chyngor Gwynedd.
13.	Diweddariad Prosiectau	Grant Cyngor Gwynedd: Adroddwyd fod prosiect Neuadd Penmorfa wedi'i gwblhau. Mae meinciau i'r Ganolfan ym Mhrenteg ar archeb a gobeithio y byddent yn cael eu danfon yn yr wythnos nesaf. Mae

		prosiect Canolfan Pentrefelin ar waith, mae'r darn o dir wedi'i glirio a bydd y garddwr yn parhau gyda'r gwaith mis yma. Grant Parc Cenedlaethol Eryri: Adroddwyd bod y bwrdd gwybodaeth bron yn barod i'w argraffu. Cytunwyd yn unfrydol y dylid gwirio'r cynnwys yn drylwyr cyn ei anfon i'w argraffu. Gadawodd RP yr ystafell. Cynigiodd MLW y dylid gofyn i Mair Parry wirio'r gwaith. Eiliwyd y cynnig gan RW, a chytunwyd yn unfrydol. Soniwyd hefyd y dylid trefnu anfon darn i'r wasg i hyrwyddo'r bwrdd gwybodaeth. Adroddodd JT a'r Clerc eu bod wedi cyfarfod â'r tîrfeddiannwr ac wedi cael caniatâd i osod y bwrdd ar ei dir yng Nghwm Pennant. Awgrymodd y tîrfeddiannwr osod y bwrdd gwybodaeth ar garreg yn hytrach nag ar ffrâm fetel. Mae carreg addas wedi'i chanfod ac wedi'i gosod yn ei lle.
14.	Seddi Gwag / Cyfethol	Mae yna dair sedd wag yn parhau ar y cyngor (Garndolbenmaen, Penmorfa a Pentrefelin). Adroddodd JT a'r clerc bod rhywun wedi dangos diddordeb. Dywedodd y clerc ei bod wedi siarad hefo'r ymgeisydd posib ac wedi egluro rôl y cynghorydd ac wedi gofyn wrth anfon cais i mewn drwy e-bost. Does dim wedi'i dderbyn hyd yma.
15.	Gohebiaeth	a. Rhybudd cau'r ffordd o Llidiard Cwmbran heibio'r fynwent i Dafarn Faig, Pant Glas – 10fed o Fedi – gwaith gan Openreach. Rhannwyd. b. Priffyrdd Dwyfor – Rhaglen Waith Awst – Gripiâu/Cyrbiau/Concrid – Braich y Big, Cwmystradllyn – clerc i wirio os yw'r gwaith yma wedi'i gwblhau. c. Priffyrdd Dwyfor – Rhaglen Waith Medi – Atgyweirio Draen - Cross Keys Pentrefelin - Rhannwyd ch. Trafnidiaeth -Arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru – Rhannwyd
16.	Gohebiaeth Ychwanegol	a. Parc Cenedlaethol Eryri – Gwasanaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio – Rhannwyd b. Cofnodion Pwyllgor Ardal Unllais Cymru a Chyflwyniad Angela Oakes - Rhannwyd
17.	Cynllunio	Rhestrau: Gorffennaf: 29/6, 6/7, 13/7, 20/7, 27/7, Awst: 3/8, 10/8, 17/8 a 24/8 <u>Ceisiadau Cynllunio</u> Dim ceisiadau <u>Penderfyniadau Ceisiadau Cynllunio</u> <u>C26/0305/36/LL</u> – Llystyn Gwyn, Bryncir – Codi adeilad amaethyddol newydd ar gyfer cadw gwartheg dros y gaeaf gyda storfa slyri o dan y llawr. Penderfyniad: Caniatwyd gydag amodau.
18.	Materion Ariannol	<u>Ceisiadau am arian:</u> Dim

		<u>Monitro'r gyllideb</u> : Dim gorwariant <u>Biliau i'w talu (Awst a Medi):</u> <table><tr><td>Cyflog Clerc (Awst)</td><td>£347.32</td></tr><tr><td>Cyflog Clerc (Medi)</td><td>£347.32</td></tr><tr><td>Ffôn (Awst)</td><td>£ 15.00</td></tr><tr><td>Ffôn (Medi)</td><td>£ 15.00</td></tr><tr><td>Cyfrifiadur (Awst)</td><td>£ 20.00</td></tr><tr><td>Cyfrifiadur (Medi)</td><td>£ 20.00</td></tr><tr><td>HMRC (Awst)</td><td>£ 87.00</td></tr><tr><td>HMRC (Medi)</td><td>£ 87.00</td></tr><tr><td>Madog Gardencare (Gorffennaf)</td><td>£390.00</td></tr><tr><td>Archwilio Cymru (23/24)</td><td>£402.18</td></tr><tr><td>Archwilio Cymru (24/25)</td><td>£329.77</td></tr><tr><td>H. S. Davies Groundworks VAT)</td><td>£3,552.00 (cynnwys VAT)</td></tr><tr><td>Costau Gweinyddol Clerc 1/9/25 – 31/8/26</td><td>£281.80</td></tr><tr><td>M: Design : Print : Web VAT)</td><td>£955.20 (cynnwys VAT)</td></tr><tr><td>Ffion Gwyn</td><td>£600.00</td></tr></table> Ychwanegwyd: <table><tr><td>Madog Gardencare (Awst)</td><td>£390.00</td></tr></table> *** Awdurdodwyd i'r clerc dalu'r uchod *** <u>Derbyniadau (Awst a Medi)</u> <table><tr><td>Pritchard & Griffiths</td><td>£ 395.00</td></tr><tr><td>HMRC VAT Return</td><td>£1,756.00</td></tr></table> Ychwanegwyd: <table><tr><td>Cyngor Gwynedd (Praesept)</td><td>£9,000</td></tr></table> <u>Balansau Cyfrifon Banc</u> Cyfredol HSBC: £2,657.22 Cadw HSBC: £25,000 Cadw HTB: £20,000	Cyflog Clerc (Awst)	£347.32	Cyflog Clerc (Medi)	£347.32	Ffôn (Awst)	£ 15.00	Ffôn (Medi)	£ 15.00	Cyfrifiadur (Awst)	£ 20.00	Cyfrifiadur (Medi)	£ 20.00	HMRC (Awst)	£ 87.00	HMRC (Medi)	£ 87.00	Madog Gardencare (Gorffennaf)	£390.00	Archwilio Cymru (23/24)	£402.18	Archwilio Cymru (24/25)	£329.77	H. S. Davies Groundworks VAT)	£3,552.00 (cynnwys VAT)	Costau Gweinyddol Clerc 1/9/25 – 31/8/26	£281.80	M: Design : Print : Web VAT)	£955.20 (cynnwys VAT)	Ffion Gwyn	£600.00	Madog Gardencare (Awst)	£390.00	Pritchard & Griffiths	£ 395.00	HMRC VAT Return	£1,756.00	Cyngor Gwynedd (Praesept)	£9,000
Cyflog Clerc (Awst)	£347.32																																							
Cyflog Clerc (Medi)	£347.32																																							
Ffôn (Awst)	£ 15.00																																							
Ffôn (Medi)	£ 15.00																																							
Cyfrifiadur (Awst)	£ 20.00																																							
Cyfrifiadur (Medi)	£ 20.00																																							
HMRC (Awst)	£ 87.00																																							
HMRC (Medi)	£ 87.00																																							
Madog Gardencare (Gorffennaf)	£390.00																																							
Archwilio Cymru (23/24)	£402.18																																							
Archwilio Cymru (24/25)	£329.77																																							
H. S. Davies Groundworks VAT)	£3,552.00 (cynnwys VAT)																																							
Costau Gweinyddol Clerc 1/9/25 – 31/8/26	£281.80																																							
M: Design : Print : Web VAT)	£955.20 (cynnwys VAT)																																							
Ffion Gwyn	£600.00																																							
Madog Gardencare (Awst)	£390.00																																							
Pritchard & Griffiths	£ 395.00																																							
HMRC VAT Return	£1,756.00																																							
Cyngor Gwynedd (Praesept)	£9,000																																							
19.	Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/Gwefan	Mynwentydd Parcio Cwm Pennant Gwersylla Anghyfreithlon Clenennau Bwrdd Gwybodaeth Eifion Wyn Cyflwr ffordd Cwm Ystradllyn Hen Safle Dŵr Cymru Maes Parcio Neuadd Penmorfa Seddi Gwag																																						